

SWYDD DDISGRIFIAD

TEITL SWYDD:	Ymgynghorydd Dysgu Digidol
SEFYDLIAD:	GwE
ADRODD I:	Arweinydd Digidol Strategol GwE
GRADD:	Secondiad - Amodau presennol



PWRPAS Y SWYDD:

Bydd yr Ymgynghorydd Dysgu Digidol yn gweithio'n agos gyda'r Arweinydd Digidol Strategol i gynnig cyngor a chymorth i ysgolion ar sut i ddatblygu eu darpariaeth ar gyfer dysgu digidol. Bydd ganddynt ddealltwriaeth ragorol o arferion dosbarth effeithiol yn y maes, yn ogystal ag agweddau strategol ar arweinyddiaeth ddigidol.

PRIF GYFRIFOLDEBAU:

Bydd gofyn iddynt gyfrannu at yr agweddau a ganlyn:

- Cefnogi gwreiddio model cymorth clwstwr newydd drwy gefnogi'r Hwyluswyr Clwstwr Dysgu Digidol
- Cynnig cymorth a hyfforddiant ar lefel clwstwr
- Helpu ysgolion i wreiddio Cymhwysedd Digidol yn llawn, fel cyfrifoldeb cwricwlwm craidd
- Cynyddu'r defnydd o lwyfan dysgu digidol Hwb
- Cynyddu dealltwriaeth o Ddinasyddiaeth Ddigidol ac E-Ddiogelwch, a'r defnydd o'r adnodd hunan arfarnu *360 Degree Safe*
- Cefnogi ysgolion i ddatblygu dull gweithredu strategol ar gyfer dysgu digidol
- Datblygu, a lansio, adnodd cenedlaethol newydd ar gyfer hunan arfarnu dysgu digidol, a chefnogi ysgolion i'w ddefnyddio i arfarnu eu darpariaeth
- Cyfrannu at y rhaglen 'Cracio'r Cod'
- Cynhyrchu adnoddau dysgu proffesiynol

Dylai'r Ymgynghorydd Dysgu Digidol fod yn ymarferydd effeithiol sydd â gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o'r diwygio yn y byd addysg yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae dealltwriaeth dda o ddatblygiadau newydd ym maes dysgu digidol yn hanfodol. Bydd gan yr Ymgynghorydd Dysgu Digidol doreth o enghreifftiau o dasgau i'w rhannu ag ymarferwyr eraill, er mwyn arddangos arfer effeithiol. Bydd ganddo/ganddi ddealltwriaeth dda o agweddau strategol ar arweinyddiaeth ddigidol, ynghyd â phrofiad o arwain yn y maes hwn yn effeithiol ar lefel ysgol.

ARALL

Cyfrifoldeb am hunan ddatblygu.

Sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau lechyd a Diogelwch yn y gweithle, yn unol â'r cyfrifoldebau a nodir yn Neddf lechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974 a Pholisi Diogelwch y gwasanaeth.

Gweithredu o fewn polisiau'r gwasanaeth yng nghyswllt cyfle cyfartal a chydraddoldeb.

Cyfrifoldeb am reoli gwybodaeth yn unol â safonau a chanllawiau rheoli gwybodaeth y gwasanaeth. Sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin mewn cydymffurfiaeth â deddfwriaeth Diogelu Data.

Ymgymryd ag unrhyw ddyletswydd arall cyfatebol a rhesymol sy'n cyd-fynd â lefel cyfrifoldeb y swydd.

Cyfrifoldeb i adrodd ar bryder neu amheuaeth bod plentyn neu oedolyn bregus yn cael ei gam-drin.

Gweithredu oddi mewn i bolisiau a gweithdrefnau Cyfleoedd Cyfartal a Chyfartaledd y gwasanaeth.

Rhestr enghreifftiol yn unig yw hon. Disgwylir i ddeilydd y swydd fod yn rhan o'r broses o reoli a monitro perfformiad, yn unol â gofynion y swydd a gweithredu ar unrhyw ddyletswyddau eraill, yn ôl natur y swydd a'i graddfa, ar gais y Rheolwr Gyfarwyddwr.

AMGYLCHIADAU ARBENNIG (e.e. anghenion oriau gwaith anghymdeithasol, gwaith trefniant arbennig ac ati)

Gall natur y gwaith olygu bod deilydd y swydd yn cyflawni gwaith tu allan i oriau gwaith arferol.

Efallai bydd yn ofynnol i ddeilydd y swydd fynychu o dro i dro, cyrsiau hyfforddi, cynadleddau, seminarau neu gyfarfodydd eraill fel bo angen yn unol â'i anghenion hyfforddiant ef neu hi, ac anghenion y Gwasanaeth.

Telir treuliau yn unol ag amodau lleol gwasanaeth.

Bydd y Swyddfa Cofnodion Troseddol yn cynnal archwiliad Estynedig ar Ddeilydd y Swydd i ganfod a gyflawnwyd unrhyw drosedd flaenorol.

Isafswm disgwyliadau ar gyfer y swydd

Bydd yr Ymgynghorydd Dysgu Digidol yn arddel isafswm disgwyliadau a nod y gwasanaeth er mwyn sicrhau:

- Arweinyddiaeth a rheolaeth dda yn ein hysgolion;
- Addysgu da ar draws ysgolion y rhanbarth;
- Gwaredu amrywiaeth o fewn ysgol;
- Dim un o ysgolion GwE i fod yng nghategoriau statudol Estyn;
- Dysgu a lles disgyblion o leiaf yn dda ym mhob ysgol;
- Dyfodol Llwyddiannus yn ei le ym mhob ysgol.

Gwerthoedd personol ac ar gyfer y gwasanaeth

Bydd yr Ymgynghorydd Dysgu Digidol yn arddel y gwerthoedd canlynol:

- Ymddiriedaeth;
- Diduedd;
- Tegwch;
- Parchu amrywiaeth;
- Cefnogol a chydweithredol;

- Dwyieithrwydd;
- Gwrthrychedd;
- Mynnu safon uchel;
- Gonestrwydd.